

# Ymgynghoriad ynghylch y Canllawiau drafft ar gyfer Etholiadau o amgylch y DU yn 2016

## Tachwedd 2015

# YMGYNGHORIAD:

## Canllawiau Drafft ar gyfer Etholiadau o amgylch y DU yn 2016

### Cefndir

Dan Siarter a Chytundeb 2006 mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod materion sy'n wleidyddol ddadleuol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus yn cael sylw gydag amhleidioldeb priodol.

Bydd yr etholiadau canlynol yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2016:

- Yn yr Alban - Senedd yr Alban
- Yng Nghymru - Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Yng Ngogledd Iwerddon - Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Yn Lloegr (y tu allan i Lundain) – Llywodraeth leol
- Yn Llundain – Awdurdod Llundain Fwyaf, gan gynnwys Maer Llundain
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (Lloegr-y tu allan i Lundain-a Chymru)

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn nodi'r gwerthoedd a'r safonau y mae'n rhaid i holl gynnwys y BBC eu bodloni. Serch hynny, mae'r BBC yn bwriadu cyhoeddi Canllawiau ychwanegol ar gyfer ei staff golygyddol er mwyn iddyn nhw allu cyfeirio atyn nhw'n benodol wrth roi sylw i'r etholiadau hyn. Mae'r Canllawiau'n cael eu datblygu gan Weithrediaeth y BBC (sy'n gyfrifol am weithredu'r BBC o ddydd i ddydd) ac maen nhw'n cael eu dwyn gerbron yr Ymddiriedolaeth ar gyfer eu cymeradwyo. Ymddiriedolaeth y BBC yw corff llywodraethu'r BBC. Mae ar wahân i Weithrediaeth y BBC sy'n gyfrifol am holl gynnwys y BBC. Yr Ymddiriedolaeth ydy'r corff apelio terfynol ym mhroses cwynion y BBC hefyd. Ar ôl cyhoeddi'r Canllawiau byddan nhw ar gael i gynhyrchwyr ac i olygyddion gyfeirio atyn nhw wrth drefnu'r arlwy ar gyfer yr etholiadau uchod.

Mae'r Canllawiau hyn yn ategu Canllawiau Golygyddol arferol y BBC ac yn helpu i ddiffinio sut bydd y BBC yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i fod yn amhleidiol yn ystod y cyfnod yn arwain at yr etholiadau uchod ac yn ystod yr etholiadau eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys—

- Cod Ymarfer ynghylch cyfraniad ymgeiswyr at eitemau newyddion ac ati sy'n cael eu darlledu yn ystod cyfnod yr etholiadau am yr etholaeth neu am yr ardal etholiadol,<sup>1</sup>
- cyngor cyffredinol am roi lefel o sylw i bob plaid, sy'n gysylltiedig i lefel y gefnogaeth etholiadol a gafodd y blaid yn y gorffennol a/neu'r lefel mae'n ei chael ar hyn o bryd, ac
- Atodiadau sy'n rhoi cyngor mwy penodol am lefelau cymharol y sylw gall pleidiau gwahanol eu disgwyl ar wasanaethau'r BBC. Mae pob Atodiad yn ymwneud ag ardal etholiadol wahanol.

Rydyn ni hefyd yn cyhoeddi papur cefndir ar y dirwedd etholiadol ar hyn o bryd fel y mae'r BBC yn ei gweld hi.

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gofyn am safbwyntiau ynghylch y Canllawiau a'r Atodiadau er mwyn i ni allu ystyried y safbwyntiau hynny wrth bwysu a mesur a ddylen ni gymeradwyo'r Canllawiau.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i'r Ymddiriedolaeth ystyried barn pleidiau gwleidyddol cofrestredig, y rheini sy'n bwriadu sefyll a'u hasiantau, ynghyd â safbwyntiau cyrff rheoleiddio eraill, darlledwyr ac aelodau o'r cyhoedd, wrth benderfynu a yw'r Canllawiau arfaethedig yn briodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol hefyd.

Nid ydy'r papur cefndir ar y dirwedd etholiadol bresennol yn rhan o'r ymgynghoriad gan ei fod yn cynnwys tystiolaeth sydd wedi cyfrannu at yr arweiniad yn yr Atodiadau, yn hytrach nag argymhellion neu gyngor ynghylch sylw. Bydd modd i'r BBC barhau i ddiwygio'r Canllawiau a'r Atodiadau er mwyn adlewyrchu unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd o bwys o gefnogaeth gyfredol ymysg etholwyr tan y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau. At y diben hwnnw, bydd y BBC yn rhoi sylw haeddiannol i unrhyw sylwadau ffeithiol neu sylwadau eraill a ddaw i law ynghylch y papur tirwedd.

**Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 20 Tachwedd 2015 a bydd ar agor am wyth wythnos tan 15 Ionawr 2016.**

## Y Canllawiau

Nid oes dim newidiadau mawr i'r egwyddorion arferol sydd wedi cael eu gosod mewn rhifynnau blaenorol o'r Canllawiau Etholiadol. Yn benodol, maen nhw'n cynnig bod y lefelau o sylw sy'n cael ei roi i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol gwahanol yn seiliedig yn lle cyntaf ar lefelau'r gefnogaeth etholiadol a gawson nhw yn y gorffennol a/neu y lefelau o gefnogaeth maen nhw'n gallu eu dangos nawr.

<sup>1</sup> Mae Cod o'r fath yn angenrheidiol o dan adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Disodlwyd fersiwn presennol adran 93 gan adran 144 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Fel sy'n cael ei egluro isod ac yn adran 4.1 o'r Canllawiau drafft<sup>2</sup>, nid oes modd i'r berthynas fod yn un hollol fathemategol ac mae ffactorau eraill yn gallu chwarae eu rhan.

Serch hynny, mae rhai newidiadau neu ychwanegiadau i'r Canllawiau blaenorol, a phwyntiau eraill i'w nodi.

Ar gyfer yr etholiadau a fydd yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2016, ni fydd cyfnodau ffurfiol pob etholiad yn dechrau ar yr un diwrnod. Bydd y Canllawiau'n dod i rym ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod etholiad cynharaf ar gyfer allbwn ar draws y DU, sef dydd Llun 21 Mawrth 2016 am 00.01 a byddan nhw'n aros mewn grym ar gyfer pob etholiad tan ddiwedd y cyfnod pleidleisio am 22.00 ar 5 Mai 2016<sup>3</sup>.

Dyma ddechrau cyfnod yr Etholiad ar gyfer pob etholiad: <sup>4</sup>

Awdurdod Llundain Fwyaf (gan gynnwys ethol Maer Llundain)	Dydd Llun 21 Mawrth 2016
Senedd yr Alban	Dydd Mercher 23 Mawrth 2016
Cynulliad Cymru	Dydd Mercher 30 Mawrth 2016
Cynulliad Gogledd Iwerddon	Dydd Mercher 30 Mawrth 2016
Llywodraeth Leol yn Lloegr	Dydd Mercher 30 Mawrth 2016
Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	Dydd Mercher 30 Mawrth 2016

Bwriad y Canllawiau ydy creu fframwaith i helpu cynhyrchwyr cynnwys y BBC i ddarparu adroddiadau diduedd i gynulleidfaedd ar yr ymgyrchoedd, ond gan barhau i roi lefel briodol o ryddid golygyddol a chreadigol i gynhyrchwyr.

## Yr Atodiadau

Nod yr arweiniad yn yr Atodiadau, sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Weithrediaeth y BBC, ydy sicrhau bod lefelau priodol o sylw i bleidiau, gyda lefel sylfaenol ar gyfer y pleidiau llai a'r ymgeiswyr annibynnol. Nid yw'n gosod unrhyw uchafswm.

Mae'r arweiniad yn rhoi'r egwyddorion a'r rhesymwaith sy'n sail i gyngor y BBC i wneuthurwyr rhaglenni wrth benderfynu pa lefel o sylw dylid ei roi i ymgeiswyr gwahanol mewn etholiadau, yn ôl eu lefelau gwahanol o gefnogaeth wleidyddol. Mae'r asesiadau hyn yn berthnasol i Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Llundain,

<sup>2</sup> Edrychwch hefyd ar y Cyflwyniad i'r Atodiadau.

<sup>3</sup> pan fydd arwyddocâd penodol i amrywiaethau, bydd y BBC yn cynnig cyngor manwl gan y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth

<sup>4</sup> Bydd pob dyddiad yn cael ei gadarnhau

Llywodraeth leol mewn rhai rhannau o Loegr, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r BBC yn egluro y dylai maint cymharol y sylw a roddir i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol ymhob ardal etholiadol (er enghraifft, ar draws gwlad neu mewn etholaeth unigol) mewn perthynas â'i gilydd adlewyrchu lefelau'r gefnogaeth ymysg etholwyr yn y gorffennol a/neu ar hyn o bryd yn yr ardal etholiadol honno. Er mai'r perfformiad yn yr etholiad cyfatebol diwethaf yn nhermau cynrychiolaeth a chyfran o'r bleidlais ydy'r man cychwyn, rhaid rhoi sylw teilwng i'r ffactorau canlynol:

- perfformiad mewn etholiadau dilynol, lle bo hynny'n berthnasol
- tystiolaeth berthnasol arall o gefnogaeth gan etholwyr ar hyn o bryd
- nifer yr ymgeiswyr y mae plaid yn eu darparu ar gyfer yr etholiad
- unrhyw faterion gwleidyddol perthnasol, megis partneriaethau etholiadol, pleidiau newydd, cytundebau clymbleidio ac ati.

Un o effeithiau arweiniad arfaethedig yr Atodiadau fyddai y byddai'r BBC yn gyffredinol yn gallu cynyddu'r sylw mae'n ei roi i gydnabod cynnydd diweddar mewn cefnogaeth etholiadol yn gynt nag y byddai i dybio bod gostyngiad mewn cefnogaeth etholiadol yn arwydd y dylai plaid gael llai o sylw. Serch hynny, ni fydd hyn bob amser yn briodol efallai. Ni ddylai'r berthynas rhwng cynnydd mewn cefnogaeth etholiadol a rhoi rhagor o sylw fod yn un fathemategol syml. Ni fyddai'n briodol, pan fydd un blaid yn dechrau mwynhau lefelau uchel iawn o gefnogaeth, iddi o reidrwydd wedyn gael llawer mwy o sylw na'r brif wrthblaid. Mewn geiriau eraill, dylid grwpio'r pleidiau mwy gyda'i gilydd o ran lefelau'r sylw, o leiaf nes bydd unrhyw wahaniaeth yn un tymor hir ac wedi ennill ei blwyf cyn ystyried unrhyw newid.

## Y cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn

Rydyn ni'n awyddus i gael unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r Canllawiau arfaethedig a'r Atodiadau cysylltiedig.

Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol cael eich barn ar y cwestiynau canlynol:

- 1. Ydy'r Canllawiau a'r Atodiadau arfaethedig yn berthnasol ac yn briodol i'r etholiadau hyn? Esboniwch pam.**
- 2. Oes unrhyw beth wedi cael ei adael allan o'r Canllawiau a'r Atodiadau arfaethedig?**
- 3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y Canllawiau a'r Atodiadau arfaethedig?**

## Sut mae cyflwyno ymateb

Anfonwch eich sylwadau i: [election.consultation@bbc.co.uk](mailto:election.consultation@bbc.co.uk)

neu drwy'r post i:

Election Guidelines Consultation  
BBC Trust Unit  
180 Great Portland St  
London W1W 5QZ

Mae fersiynau copi caled, print bras, sain a Braille o'r Canllawiau drafft ar gyfer Etholiadau 2016 ar gael ar gais drwy gysylltu ag Ymddiriedolaeth y BBC drwy e-bost neu'r post fel uchod, neu drwy ffonio 0203 214 4973 neu ffôn testun 03700 100 212.

## Cyfrinachedd

Fel rheol mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cyhoeddi ymatebion sefydliadau yn llawn pan fydd wedi llunio ei chasgliadau. Ni fyddwn yn cyhoeddi enw na manylion cysylltu y rhai sy'n ymateb ar ran sefydliadau. Os byddai'n well gennych i'r cwbl neu ran o ymateb eich sefydliad gael ei drin yn gyfrinachol, cofiwch nodi hynny'n glir ar ddechrau eich ymateb a nodi pa rannau ddylai fod yn gyfrinachol.

Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi ymatebion unigol gan y cyhoedd a byddwn yn ymddwyn mewn ffordd gwbl gyfrinachol os byddwch yn datgelu pwy ydych chi i ni. Ond, byddwn yn cyhoeddi data dienw er budd tryloywder. Bydd unrhyw ddyfyniadau penodol a ddefnyddir yn yr adroddiad yn ddienw oni bai y gwneir cais fel arall.

Mae'r BBC yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn storio'n ddiogel unrhyw wybodaeth bersonol a gyflwynir gennych chi, fel eich enw, eich manylion cyswllt a'ch sefydliad, a dim ond at ddibenion gweinyddu'r ymgynghoriad hwn y caiff ei defnyddio. Cewch ragor o wybodaeth am bolisi preifatrwydd y BBC yn <http://www.bbc.co.uk/privacy>

Mae'r BBC yn dod o dan awdurdodaeth Deddf **Rhyddid Gwybodaeth** 2000. Os gwneir cais o dan y Ddeddf yng nghyswllt yr ymgynghoriad hwn, efallai y bydd angen i'r BBC ddatgelu'r wybodaeth oni bai ei bod wedi'i heithrio o dan y Ddeddf. I gael rhagor o wybodaeth ewch i <http://www.bbc.co.uk/foi>.

## Y camau nesaf

Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ar wefan yr Ymddiriedolaeth ynghyd â'r Canllawiau Etholiadol a fydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth. Rydyn ni'n disgwyl y bydd hyn yn digwydd ym mis Chwefror 2016.

Bydd modd i'r BBC barhau i ddiwygio'r Canllawiau a'r Atodiadau er mwyn adlewyrchu unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd o bwys o gefnogaeth gyfredol

ymsg etholwyr tan y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau. Bydd newidiadau'n cael eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth a bydd y fersiwn newydd yn cael ei roi ar wefan yr Ymddiriedolaeth.